# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 9 Tachwedd 2016

Amser y cyfarfod: 13.30

## 30(v4)

## 1 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i Ysgrifennydd y Cabinet ar ôl cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i Ysgrifennydd y Cabinet ar ôl cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## Cwestiynau Brys

**Cwestiwn Brys 1**

**I'r Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant:**

**Neil McEvoy (Canol De Cymru):** Yn sgil y tebygolrwydd buan y caiff Bashir Naderi ei orfodi i adael y DU ddydd Mawrth nesaf, a wnaiff y Gweinidog ystyried gwneud sylwadau i rwystro hyn rhag digwydd?

**Cwestiwn Brys 2**

**I'r Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon:**

**Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch adroddiad yr Ombwdsmon, a ganfu 'methiant systemig' mewn gofal claf canser yn Ysbyty Glan Clwyd ym Modelwyddan?

## 3 Datganiadau 90 Eiliad

(5 munud)

## 4 Datganiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig ar ymchwiliad y Pwyllgor i ddyfodol polisïau gwledig ac amaethyddol yng Nghymru

(30 munud)

## 5 Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv)

(60 munud)

**NDM6122**

Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru)
Huw Irranca-Davies (Ogwr)
Vikki Howells (Cwm Cynon)
Sian Gwenllian (Arfon)
David Melding (Canol De Cymru)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn croesawu'r Adroddiad Sefyllfa Byd Natur 2016

2. Yn cymeradwyo gwaith y sefydliadau cadwraeth ac ymchwil sydd wedi cynhyrchu'r adroddiad

3. Yn pryderu am y canfyddiadau sy'n nodi:

a) bod 56 y cant o'r rhywogaethau a astudiwyd wedi dirywio ledled y DU dros y 50 mlynedd diwethaf

b) bod un o bob 14 rhywogaeth yng Nghymru bron â darfod

c) bod 57 y cant o blanhigion gwyllt, 60 y cant o löynnod byw a 40 y cant o adar yn dirywio

d) bod dros draean o rywogaethau fertebrat a phlanhigion morol (sy'n hysbys i ni) wedi prinhau, gyda thri chwarter o rywogaethau infertebrat morol yn dirywio ledled y DU.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus i sicrhau bod gwyrdroi'r dirywiad yn ein bioamrywiaeth yn ganolog i bolisïau rheoli cynaliadwy.

'Adroddiad Sefyllfa Byd Natur Cymru 2016'

## 6 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig

(60 munud)

**NDM6132** Paul Davies (Preseli Sir Benfro)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi, yn ôl Arolwg Cartrefi 2014 y Lleng Brydeinig Frenhinol, fod 385,000 o gyn-aelodau ac aelodau presennol o gymuned y lluoedd arfog yng Nghymru.

2. Yn cydnabod y dylai'r rhai sy'n gwasanaethu neu sydd wedi gwasanaethu yn y lluoedd arfog a'u teuluoedd, gael eu trin â thegwch a pharch.

3. Yn credu y dylai Cymru fod ar flaen y gad wrth weithredu Cyfamod y Lluoedd Arfog, sydd wedi'i fwriadu i wneud iawn am yr anfanteision y gall cymuned y lluoedd arfog eu hwynebu o gymharu â dinasyddion eraill, ac i gydnabod aberthion y gymuned honno.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) nodi bod Llywodraeth yr Alban wedi creu comisiynydd ar gyfer cyn-filwyr, i hyrwyddo anghenion cymuned y lluoedd arfog, ac yn galw ymhellach ar Lywodraeth Cymru i greu comisiynydd y lluoedd arfog i Gymru ar gyfer cyn-filwyr

a chymuned ehangach y lluoedd arfog, gyda'r nod cyffredinol o wella'r canlyniadau i gyn-filwyr yn ogystal ag aelodau o'r lluoedd arfog sy'n dal i wasanaethu; a

b) cyflwyno asesiad o anghenion cyn-filwyr a fydd yn sail ar gyfer darparu gwasanaethau i sicrhau bod gan gyn-aelodau o'r lluoedd arfog yr hawl i gael y gefnogaeth y maent yn ei haeddu.

'Arolwg Cartrefi 2014 y Lleng Brydeinig Frenhinol'

'Cyfamod y Lluoedd Arfog'

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1.** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn):

Dileu pwynt 4.

**Gwelliant 2.** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn):

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ymchwilio i ffyrdd o hybu a hyrwyddo anghenion cyn-filwyr, a'r cymunedau y maent yn byw ynddynt, gan edrych ar arfer gorau mewn mannau eraill.

**Gwelliant 3.** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn):

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi gwaith sefydliadau fel '65 Degrees North', sy'n helpu i adsefydlu cyn-filwyr, ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gyda'r Weinyddiaeth Amddiffyn i sicrhau bod pobl sydd ar fin gadael y lluoedd arfog yn ymwybodol o sefydliadau o'r fath.

**Gwelliant 4.** Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn croesawu'r camau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cymryd mewn partneriaeth â chymuned y lluoedd arfog, gan gynnwys:

a) gwaith amhrisiadwy Grŵp Arbenigwyr y Lluoedd Arfog;

b) datblygu'r llyfryn Croeso i Gymru ar gyfer personél presennol y lluoedd arfog a'u teuluoedd ynghylch cael eu hadleoli i Gymru;

c) gwell cymorth ar gyfer y lluoedd arfog a'u teuluoedd, gan gynnwys datblygu Llwybr Tai ar gyfer cyn bersonél y lluoedd arfog a'u teuluoedd;

d) Llwybr Cyflogadwyedd y Lluoedd Arfog sy'n galluogi pobl ifanc i feithrin sgiliau ac ennyn hyder, ennill cymwysterau a sicrhau cyflogaeth;

e) y gwaith sy'n parhau i ddatblygu'r ddarpariaeth iechyd a lles ar gyfer cyn bersonél y lluoedd arfog gan gynnwys y swm o £585,000 a roddir ar gyfer GIG Cymru i Gyn-filwyr bob blwyddyn, nofio am ddim a'r ffaith y bydd y pensiwn anabledd rhyfel yn cael ei ddiystyru yn llwyr o fis Ebrill 2017.

'Croeso i Gymru'

## 7 Dadl Plaid Cymru

(60 munud)

**NDM6134** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi targed Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

2. Yn gresynu bod canran y dysgwyr saith oed sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg heb newid yn y blynyddoedd diwethaf.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gryfhau'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar draws pob sector addysg fel rhan ganolog o'i strategaeth i gyrraedd y targed hwn.

Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:

**Gwelliant 1.** Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Dileu pwynt 2 a rhoi yn ei le:

Yn cydnabod bod cynyddu nifer y dysgwyr sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg wedi bod, a bydd yn parhau i fod, yn ganolog i bolisi addysg a sgiliau Llywodraeth Cymru.

**Gwelliant 2.** Paul Davies (Preseli Sir Benfro)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gyda busnesau i wella'r ffordd y mae'r Gymraeg yn cael ei dysgu a'i defnyddio yn y gweithle.

## 8 Cyfnod pleidleisio

## 9 GOHIRIWYD TAN 16 TACHWEDD - Dadl Fer

(30 munud)

**NDM6133** Julie Morgan (Gogledd Caerdydd)

Colli'r ddarpariaeth ymchwil y galon yn Ysgol Feddygol Caerdydd

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 15 Tachwedd 2016

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 2 Tachwedd 2016 i'w hateb ar 9 Tachwedd 2016

**R – Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W – Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**
**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

Bydd y Llywydd yn galw Llefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl Cwestiwn 2.

## Gofyn i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith

**1.** Hefin David (Caerffili): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddyfodol masnachfraint rheilffordd Cymru a'r Gororau? OAQ(5)0069(EI)

**2.** Hefin David (Caerffili): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr economi werdd yng Nghymru? OAQ(5)0070(EI)

**3.** Neil Hamilton (Canolbarth a Gorllewin Cymru): Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael am y bwriad i ailagor y llinell reilffordd rhwng Aberystwyth a Chaerfyrddin? OAQ(5)0064(EI)

**4.** Suzy Davies (Gorllewin De Cymru): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cynllun cymorth buddsoddi mewn twristiaeth? OAQ(5)0057(EI)

**5.** Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro): A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am broses Llywodraeth Cymru ar gyfer ymgeisio am grantiau busnes? OAQ(5)0067(EI)

**6.** Jayne Bryant (Gorllewin Casnewydd): A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddarparu gwasanaeth trên rheolaidd rhwng Glyn Ebwy a Chasnewydd? OAQ(5)0071(EI)

**7.** Mark Reckless (Dwyrain De Cymru): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y gwelliant tebygol mewn amseroedd teithio rhwng Casnewydd a chyrchfannau eraill rhwng de Cymru a Llundain ar ôl trydaneiddio? OAQ(5)0061(EI)

**8.** Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddigwyddiadau chwaraeon mawr yng Nghymru? OAQ(5)0072(EI)**W**

**9.** Joyce Watson (Canolbarth a Gorllewin Cymru): A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am welliannau ffordd i gyffordd A470/A493 Tywyn yn Nolgellau? OAQ(5)0066(EI)

**10.** Adam Price (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr): Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael â Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant ynghylch prosiect Yr Egin yn Sir Gaerfyrddin? OAQ(5)0074(EI)

**11.** Rhianon Passmore (Islwyn): Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cymryd i wella'r gwasanaethau rheilffordd i deithwyr? OAQ(5)0073(EI)

**12.** David Rees (Aberafan): A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch cymhwyso'r ardoll prentisiaethau yng Nghymru? OAQ(5)0063(EI)

**13.** Mark Isherwood (Gogledd Cymru): Sut mae Llywodraeth Cymru yn cynyddu ffyniant yng Ngogledd Cymru? OAQ(5)0060(EI)

**14.** Sian Gwenllian (Arfon): A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau ym Mharc Busnes Bryn Cegin ger Bangor? OAQ(5)0062(EI)**W**

**15.** Neil McEvoy (Canol De Cymru): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cymorth ariannol y mae Llywodraeth Cymru yn ei roi i fusnesau? OAQ(5)0056(EI)

## Gofyn i Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon

1. Adam Price (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am amseroedd aros awdioleg ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda? OAQ(5)0055(HWS)

2. Paul Davies (Preseli Sir Benfro): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddarparu gwasanaethau pediatrig yn Sir Benfro? OAQ(5)0056(HWS)

3. Hefin David (Caerffili): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y gwasanaethau a ddarperir yn Ysbyty Ystrad Fawr? OAQ(5)0069(HWS)

4. Mike Hedges (Dwyrain Abertawe): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch cyfran yr adnoddau a ddarperir i ofal sylfaenol a gofal eilaidd? OAQ(5)0061(HWS)

5. Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro): A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau newyddenedigol yng Nghymru? OAQ(5)0067(HWS)

6. Vikki Howells (Cwm Cynon): A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wneir gan Lywodraeth Cymru i ostwng y cyfraddau gordewdra ymhlith plant? OAQ(5)0063(HWS)

7. Julie Morgan (Gogledd Caerdydd): Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i gefnogi pobl â chlefyd seliag i'w helpu i gynnal ffyrdd iach o fyw? OAQ(5)0075(HWS)

8. Nick Ramsay (Mynwy): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y gwasanaethau meddygon teulu y tu allan i oriau sydd ar gael yn ne-ddwyrain Cymru? OAQ(5)0059(HWS)

9. Mike Hedges (Dwyrain Abertawe): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y datblygiadau arfaethedig ar safle Ysbyty Treforys? OAQ(5)0062(HWS)

10. Leanne Wood (Rhondda): A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am waith yr adolygiad o'r ceisiadau cyllido cleifion unigol? OAQ(5)0071(HWS)

11. Caroline Jones (Gorllewin De Cymru): A wnaiff y Gweinidog amlinellu'r camau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i ostwng amseroedd aros ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed yng Nghymru? OAQ(5)0066(HWS)

12. Hefin David (Caerffili): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am fynediad cleifion i'r ganolfan gofal arbenigol a chritigol arfaethedig? OAQ(5)0070(HWS)

13. Neil Hamilton (Canolbarth a Gorllewin Cymru): A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i wella iechyd a llesiant i bawb yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru? OAQ(5)0064(HWS)

14. Lynne Neagle (Torfaen): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y modd y mae Llywodraeth Cymru yn gwella iechyd plant yng Nghymru? OAQ(5)0072(HWS)

15. Steffan Lewis (Dwyrain De Cymru): Beth yw blaenoriaethau Llywodraeth Cymru yn ardal Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan? OAQ(5)0057(HWS)